# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 4

SAFONAU

## PENNOD 6

HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

*Gofyniad i gydymffurfio â safon yn dod i ben*

### 53 Gofyniad i gydymffurfio â safon yn dod i ben

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn unrhyw achos pan fydd person (P) yn peidio â bod o dan y ddyletswydd yn adran 25(1) i gydymffurfio â safon oherwydd—

(a) bod un neu ragor o amodau 1 i 3 yn adran 25 yn peidio â chael ei fodloni neu eu bodloni, neu

(b) bod y safon yn peidio â chael ei phennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1).

(2) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r adran hon fod yn gymwys, rhaid i'r Comisiynydd, drwy arfer y pwerau a roddir gan y Bennod hon, sicrhau bod y newid a ddisgrifir yn is-adran (1) yn cael ei adlewyrchu yn yr hysbysiadau cydymffurfio (os bydd rhai) sy'n parhau mewn grym mewn perthynas â P.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 53 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 53 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Gofyniad i gydymffurfio â safon yn dod i ben.